# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH CAERDYDD

# FFURFLEN GAIS

**Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English.** Mae’r Ymddiriedolaeth yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg ac mae ffurflenni cais ar gael yn y ddwy iaith ac fe gânt eu trin yn gyfartal.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Rhif ffôn:** | |
| **Cyfeiriad E-bost:** | |
| **Dyddiad Geni:** | |
| **Dewis iaith (dileer fel y bo'n briodol)** | Saesneg / Cymraeg |

Ar gyfer pa grant yr ydych yn gwneud cais?

| | |
|---|---|
| **Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd**<br><br>• Gallwch wneud cais am gymorth ariannol tuag at fynychu addysg bellach/uwch neu i'ch cefnogi i fynd i mewn i broffesiwn neu fasnach<br>• Mae'n rhaid eich bod wedi mynychu ysgol uwchradd yng Nghaerdydd am o leiaf ddwy flynedd<br>• | ☐<br><br>Llenwch Adrannau A a D |
| **Bwrsariaeth Craddock Wells**<br><br>• Gallwch wneud cais am gymorth ariannol tuag at y costau sy'n gysylltiedig â mynychu cwrs addysg bellach neu uwch<br>• Mae'n rhaid eich bod wedi mynychu ysgol gynradd neu ysgol uwchradd yng Nghaerdydd am o leiaf ddwy flynedd<br>• Mae'n rhaid i chi fod yn byw yng Nghaerdydd ar hyn o bryd<br>• Mae'n rhaid eich bod wedi aros mewn addysg anstatudol am ddwy flynedd i astudio Safon Uwch neu gymhwyster ar lefel gyfatebol | ☐<br><br>Llenwch Adrannau B a D |
| **Lwfans Cynhaliaeth Craddock Wells**<br><br>• Gallwch wneud cais am gymorth ariannol i'ch galluogi i gyflawni eich cwrs astudio mewn Ysgol Uwchradd yng Nghaerdydd | ☐<br><br>Llenwch Adrannau C a D |

**<u>Rhaid i bob ymgeisydd lenwi Adran D yn llawn.</u>**

| Adran A - Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd | |
|---|---|
| **Cadarnhewch enw(au) Ysgol(ion) Uwchradd Caerdydd a fynychwyd gennych, a dyddiadau mynychu (am o leiaf ddwy flynedd):** | Enw'r Ysgol……………………………………………….. <br> Pryd: O ………… I ………… <br> Enw'r Ysgol……………………………………………….. <br> Pryd: O ………… I ………… |
| **Adran B – Bwrsariaeth Craddock Wells** | |
| **Cadarnhewch enw(au) Ysgol(ion) Cynradd a/neu Uwchradd Caerdydd a fynychwyd gennych, a dyddiadau mynychu (am o leiaf ddwy flynedd):** | Enw'r Ysgol……………………………………………….. <br> Pryd: O ………… I ………… <br> Enw'r Ysgol……………………………………………….. <br> Pryd: O ………… I ………… <br> Enw'r Ysgol……………………………………………….. <br> Pryd: O ………… I ………… |
| **Cadarnhewch eich bod wedi aros mewn addysg anstatudol (ôl-16) i astudio ar gyfer Safon Uwch, BTEC, neu gyfwerth.** <br><br> **Rhowch fanylion y cwrs rydych wedi'i fynychu.** | Enw'r coleg/sefydliad: <br> Enw'r Cwrs: <br> Cymhwyster a gafwyd/disgwyliedig: <br> Pryd: O ………… I ………… |
| **Adran C - Lwfans Cynhaliaeth Craddock Wells** | |
| **Cadarnhewch enw Ysgol Uwchradd Caerdydd yr ydych yn ei mynychu ar hyn o bryd, y Flwyddyn astudio yr ydych ynddi ar hyn o bryd, a'r dyddiad y gwnaethoch ymuno â'r ysgol.** | Enw'r Ysgol……………………………………………….. <br> Dyddiad ymuno: <br> Grŵp Blwyddyn ar hyn o bryd: |

| | |
|---|---|
| | |

| Adran D – <u>pob ymgeisydd i gwblhau</u> | |
|---|---|
| **Nodwch at ba ddiben y mae angen y cymorth ariannol hwn:**<br>**(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)** | Dillad, Offer/Cyfarpar, Llyfrau ☐<br>Ffioedd Addysgu ☐<br>Teithio ☐<br>Lwfans Cynhaliaeth ☐<br>Arall (rhowch fanylion) ☐<br>________________________ |

**Rhowch amcangyfrifon a/neu gostau gwirioneddol y mae angen cymorth arnoch gyda nhw o dan y penawdau a ddarparwyd.**

**Mae'n ofynnol i chi gyflwyno dogfennau ategol i ddangos tystiolaeth o'r gwariant. Os nad yw dogfennau ategol ynghlwm wrth y ffurflen gais hon, bydd yn arwain at oedi cyn i'ch cais gael ei ystyried gan yr Ymddiriedolaeth.**

**Mae croeso i chi gynnwys dogfennau eraill i gefnogi eich cais.**

**Gwneir taliadau dim ond <u>ar ôl</u> i'r costau gael eu hysgwyddo, a bydd angen tystiolaeth o wariant arnom.**

| **Eitem** | **Amcangyfrif o'r gost/ cost wirioneddol** | **Gofynion tystiolaeth** |
|---|---|---|
| Ffioedd addysgu | £ | - Llythyr derbyn neu gofrestru<br>- Cadarnhad o'r ffioedd sydd i'w hysgwyddo, namyn unrhyw grantiau neu ysgoloriaethau a ddyfarnwyd |
| Cyfarpar | £ | Amcangyfrifon neu dderbynebau |
| Costau teithio | £ | Amcangyfrifon neu dderbynebau/cadarnhad archebu |
| Lwfans Cynhaliaeth | £ | Amcangyfrifon neu dderbynebau hyd at werth £400 |
| Arall | £ | Amcangyfrifon neu dderbynebau |
| **Cyfanswm** | **£** | |

| **Ydych chi wedi gwneud cais am unrhyw gyllid ychwanegol o unrhyw ffynhonnell arall tuag at y cais hwn?** | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Os ydych, rhowch fanylion gan gynnwys y corff ariannu, p'un a oeddech yn llwyddiannus, a'r symiau a ddyfarnwyd.** | |
| **A yw hyn yn ailadrodd cais am ragor o flynyddoedd astudio/hyfforddi?**<br><br>**Os ydyw, pryd rydych chi'n disgwyl cwblhau'r cwrs?** | |

| **Rhowch unrhyw wybodaeth bellach yr hoffech ei hychwanegu i gefnogi eich cais am gymorth ariannol:** |
|---|
| *Er enghraifft, fel canllaw, efallai yr hoffech ddarparu gwybodaeth am:*<br>- *Sut y bydd yr arian hwn yn eich helpu yn eich gyrfa yn y dyfodol*<br>- *Eich dyheadau a'ch uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol*<br>- *Beth rydych chi'n gobeithio ei gyflawni drwy fynychu'r cwrs neu'r hyfforddiant hwn*<br>- *Eich cymhelliant dros fod eisiau dilyn y cwrs/hyfforddiant neu lwybr gyrfa hwn*<br>- *Pam rydych chi wedi dewis mynychu'r sefydliad hwn?*<br>- *Os mai ailadrodd cais yw hwn, beth yr ydych wedi'i gyflawni hyd yn hyn, a beth fu eich llwyddiannau ers cael cyllid gan yr Ymddiriedolaeth?*<br>- *Sut y byddai'n effeithio arnoch pe bai'r cais hwn yn aflwyddiannus?* |

| **Datganiad**<br>Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan **yr ymgeisydd neu gynrychiolydd addas**.<br><br>Mae gwneud datganiad ffug neu gadw gwybodaeth yn ôl yn drosedd, a allai arwain at erlyniad.<br><br>Cytunaf y gall Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd wneud unrhyw ymholiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.<br><br>Deallaf fod yn rhaid i mi ddweud wrthych ar unwaith am unrhyw newidiadau yn fy amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cyllid a ddarperir.<br><br>Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddir yn wir ac yn gyflawn ac rwy'n deall, os canfyddir bod y wybodaeth hon yn anghywir, y gall yr Ymddiriedolaeth adennill yr arian grant sydd wedi'i dalu. | |
|---|---|
| **Enw'r ymgeisydd neu'r cynrychiolydd (priflythrennau):** | |
| **Llofnod yr ymgeisydd neu'r cynrychiolydd:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Caiff unrhyw ddata a gyflenwyd gennych chi ar y ffurflen hon ei phrosesu'n unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ac wrth ei gyflwyno byddwch yn cydsynio i'r Ymddiriedolaeth brosesu'r data at y diben y'i cyflenwyd. Caiff yr holl wybodaeth bersonol a roddir ei thrin yn gwbl gyfrinachol a dim ond at ddibenion a ganiateir gan y gyfraith y bydd yn cael ei defnyddio gan yr Ymddiriedolaeth neu ei datgelu i eraill.

**Dychwelwch y ffurflen hon i:**

YmddiriedolaethABCaerdydd@cardiff.gov.ukYmddiriedolaethABCaerdydd@cardiff.gov.u

Cofiwch atodi unrhyw ddogfennau ategol neu dystiolaeth yr ydych wedi cyfeirio ati yn eich cais.